YMWYBYDDIAETH O DDIOGELU YR EGLWYS YNG NGHYMRU

03. **DIOGELU A'R EFENGYL**

Gelwir ar yr eglwys i rannu newyddion da ac i fod yn newyddion da i bawb, gan gynnwys plant a'r mwyaf bregus o fewn ein cymdeithas.

- Mae'r ffydd Gristnogol yn datgan gwerth pob person byw fel pe bai wedi'i wneud yn nelwedd Duw.
- Mae diogelu hefyd yn fater o gyfraith.
- Mae'n hanfodol fod modd ymddiried yn llwyr ym mhob person sydd mewn safle o gyfrifoldeb ac awdurdod i gynnal y safleoedd hyn.

Mae ymdriniaeth ddiwinyddol yr eglwys o ddiogelu yn deillio o:

1. **Werthoedd a Diwinyddiaeth**

- Mae pawb wedi'i greu a'i garu gan Dduw, ag urddas a gwerth.
- Dylai'r eglwys fod yn gymuned sy'n groesawgar a lletygar i bawb. **Os nad yw'n ddiogel, nid yr Eglwys ydyw.**

2. **Y Beibl**

- Dywedir bod Duw yn gwarchod y bregus, 'Mae'n amddiffyn achos y plentyn amddifad a'r wraig weddw', (Dewt. 10:18).
- Mae Duw yn cynnig diogelwch a rhyddid rhag niwed, 'Tŵr cadarn yw enw yr Arglwydd; ato y rhed y cyfiawn ac y mae yn ddiogel', (Diarhebion 18.10).

3. **Ein Cenhadaeth**

- Does gan yr eglwys ddim newyddion da i'w rannu os nad yw'n fan diogel.
- Mae siarad am Dduw fel rhywun diogel, sy'n rhoi gobaith a diogelwch, yn gofyn bod yr eglwys yn ddiogel, yn rhoi gobaith a diogelwch. **Os nad yw'n ddiogel, nid yr Eglwys ydyw.**

Gallwch ddysgu rhagor am Yr Eglwys yng Nghymru a diogelwch trwy wefan Yr Eglwys yng Nghymru: www.churchinwales.org.uk